# Gwneud i £150 fynd ymhell



## Garddio trefol yn Fearon Hall

Canolfan gymunedol yn Loughborough, Swydd Gaerlŷr yw Fearon Hall sy'n cefnogi amrywiaeth eang o bobl yn yr ardal leol. Oedolion sy'n agored i niwed rhwng 20 a 80 oed yw'r rhan fwyaf o'r defnyddwyr. Esbonia'r Rheolwr Gweithgareddau, Dawn Page, "rydym yn hoffi meddwl am ein hunain fel rhyw fath o neuadd bentref."

### Gwreiddiau yn yr ardd gefn

Dechreuodd y prosiect Urban Gardeners pan aeth Catherine, sy'n arddwraig hyfforddedig, i holi Fearon Hall ynglŷn â sefydlu grŵp garddio i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned.

Gyda'r bwriad o adfer rhywfaint ar yr ardd, gwnaethant gais am Grant Bach Dewch at Eich Gilydd i brynu offer garddio, hadau, planhigion a hambyrddau hadau. Roedd modd i Dawn ddefnyddio'r arian hefyd i roi cyhoeddusrwydd i Grŵp Garddio Therapiwtig - Urban Gardeners, a ddechreuodd gyfarfod yn ystod mis Mai 2021.

### Croesawu Pawb



Bob bore Sadwrn, daeth grŵp bach at ei ynghyd yng nghaffi Fearon Hall gan ddechrau ei sesiwn arddio a gyda bwyd a diod boeth. Roedd hyn yn gymhelliant ychwanegol i bobl fynychu'r grŵp garddio.

Croesawodd y grŵp bobl ag amrywiaeth o wahanol sgiliau a gallu, a ddaeth yno i ddysgu a magu hyder ym maes tyfu bwyd. Roedd rhai o'r bobl yn gallu palu, chwynnu a thacluso tra bo eraill yn gallu hau hadau.

Wrth i ardd gefn Fearon Hall ddechrau siapio, tyfodd eu brwdfrydedd i wella'r man gwyrdd o'u hamgylch. Dechreuodd Urban Gardeners weithio ar chwe bocs plannu wedi'u gwneud o bren y tu allan i Fearon Hall. Anogwyd defnyddwyr gwasanaethau a grwpiau eraill sy'n cyfarfod yn yr eglwys, megis y sgowtiaid, i gymryd rhan hefyd ac aethant ati i ddechrau plannu planhigion ynddynt.



Roedd yn llai o gyfrifoldeb ac yn llai brawychus gofalu am y bocsys plannu, gan wneud y dasg o arddio yn haws i'r grwpiau hyn yn ogystal ag i'r unigolion hŷn. "Fe wnaethom gymysgu'r blodau â'r llysiau a pherlysiau a salad i'w defnyddio yng nghegin ein caffi."

**Gwella'r Man Gwyrdd**

Ac fe aeth Urban Gardeners gam ymhellach. Ar ôl cael caniatâd gan y cyngor, aethant ati i dynnu rhai o'r llwyni blêr yn y man wrth ymyl y ffordd ac i wella'r pridd cyn mynd ati i blannu.

Fe wnaethon nhw greu rhandir ardderchog yn y gwelyau ar ymyl y ffordd, gan gynnig llysiau am ddim i'r trigolion ac i unrhyw un sy'n mynd heibio i helpu eu hunain iddyn nhw.

> *Nid dim ond ni sy'n cael ei ddefnyddio, rydym wedi'i wneud yn hardd i bawb. Byddwn yn defnyddio'r [cynnyrch] yn y caffi … ond mae croeso i unrhyw un sy'n mynd heibio ac i unrhyw un sy'n agored i niwed sy'n dod i Fearon Hall helpu eu hunain. Os bydd angen brocoli arnyn nhw, gallant fynd yno i'w gasglu a mynd ag ef adref i'w fwyta."*

Cafodd cyflawniadau anhygoel Dawn, Catherine a gwirfoddolwyr Urban Gardeners ganmoliaeth gan y beirniaid yng **Ngwobrau y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol Prydain yn ei Blodau.**

**Cyfnewid Cynnyrch**




Cafodd Dawn syniad i ddechrau gwasanaeth 'Cyfnewid Cynnyrch' yn Fearon Hall er mwyn rhannu'r bwyd tymhorol a lleol y mae Urban Gardeners yn ei dyfu gyda'r gymuned. Roedd hyn yn galluogi pobl i gyfrannu planhigion neu gynnyrch dros ben, ac i helpu eu hunain am ddim.

Fe wnaethant ymuno â rhanddeiliaid cymunedol eraill, sef Rhandiroedd Cymunedol Transition Loughborough a

Chymdeithas Tirlunio a Garddio Prifysgol Loughborough, i fynd ati i adnewyddu cert marchnad ail-law i'w osod y tu allan i Fearon Hall bob dydd Sadwrn.

Roedd y trigolion lleol wrth eu bodd â'r gwasanaeth Cyfnewid Cynnyrch, a hysbysebwyd drwy arddangos posteri mewn rhandiroedd lleol, a gan ei fod mor boblogaidd penderfynwyd agor y cert marchnad dri diwrnod yr wythnos yn ystod tymor yr haf a'r hydref.

Drwy gydol mis Medi a mis Hydref, llwyddodd Urban Gardeners i ddarparu digonedd o gynnyrch lleol a thymhorol i'r gymuned. Cysylltodd grŵp cymunedol lleol arall ag ef, sef Lions, i ddarparu llond berfa o afalau nes ei fod yn orlawn, ond fe aeth pob un ohonynt! Cawsant lawer o bwmpenni hefyd, a fu'n boblogaidd iawn yn ystod Calan Gaeaf.



Gobaith Dawn yw y gall y gwasanaeth Cyfnewid Cynnyrch fod yn nodwedd barhaol yn Fearon Hall yn ystod y gwanwyn, yr haf a'r hydref.

**Mae Grant Bach yn Mynd Ymhell**

Esboniodd Dawn fod y grant bach wedi llwyddo i gysylltu cymaint o bobl drwy arddio, a dywedodd "ni fyddem wedi gallu gwneud hynny heb y mewnbwn cychwynnol hwnnw." Drwy gael y cymorth hwn roedd modd iddyn nhw gael yr adnoddau i drawsnewid mannau gwyrdd yn rhandiroedd hardd, a dod â phobl at ei gilydd.

*"Llwyddodd yr hyn a ddechreuodd fel grŵp garddio i ddatblygu'n rhywbeth llawer mwy. Nid oeddem am gael adborth ffurfiol ond roedd y ffaith eu bod yn dychwelyd yn ddigon i ni. Mae'r hyn y mae £150 wedi'i gyflawni yn anhygoel"*

Nod y grŵp Urban Gardening yw rhoi hwb i'w weithgareddau tyfu bwyd unwaith eto ar ddechrau tymor y Gwanwyn 2022.